Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 10.02.2021

## Cronfeydd Busnes Cyfyngiadau Chwefror / Mawrth 2021 Llywodraeth Cymru

Cyhoeddwyd cymorth pellach ar gyfer y sectorau manwerthu dianghenraid, lletygarwch, twristiaeth a hamdden a busnesau eraill sy’n cael eu gorfodi neu y mae’n ofynnol iddynt gau neu wedi eu heffeithio’n sylweddol gan y cyfyngiadau parhaus:

- Bydd busnesau cymwys a dderbyniodd gymorth ar gyfer Rhagfyr 2020 / Ionawr 2021 yn derbyn y taliad yma yn uniongyrchol dim hwyrach na 26 Chwefror 2021 – nid oes angen cyflwyno cais. Gall busnesau cymwys nad ydynt wedi hawlio taliad o’r blaen wneud cais am gymorth o hyd drwy lenwi ffurflen syml, a fydd ar gael o Ddydd Gwener, 12 Chwefror 2021.

- Bydd busnesau bach nad ydynt yn talu Trethi Annomestig, ac sydd wedi colli rhan sylweddol o’u hincwm, hefyd yn gallu cael cymorth ychwanegol

> drwy lenwi ffurflen gais syml. Bydd y ffurflen gais ar gyfer y cyllid newydd ar gael o Ddydd Gwener, 12 Chwefror 2021.

Bydd mwy o wybodaeth am y cymorth a'r ffurflenni cais ar gael o:

http://bit.ly/CronCyfMawrth2021

## Chwaraeon Cymru: Cronfa Darparwyr Preifat y Sector Chwaraeon ar agor

Mae Cronfa Darparwyr Preifat y Sector Chwaraeon newydd ar agor rŵan i helpu darparwyr preifat a masnachol sydd wedi cael eu heffeithio gan y pandemig. Mae'r gronfa ar gyfer darparwyr preifat a masnachol sy'n darparu cyfleoedd gweithgarwch corfforol yn uniongyrchol i'r cyhoedd yng Nghymru. Gellir gwneud ceisiadau i Gronfa Darparwyr Preifat y Sector Chwaraeon drwy wefan Chwaraeon Cymru o hanner dydd, 9 Chwefror 2021, tan 4:00pm 19 Chwefror 2021. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://www.chwaraeon.cymru/cronfa-darparwyr-preifat-y-sector-chwaraeon/

## Cynllun Cymorth Tarfu ar Fusnesau Bwyd Môr gwerth £23 miliwn ar agor

Gall busnesau allforio bwyd môr y mae'r heriau o addasu i ofynion newydd ar gyfer allforio i'r UE wedi effeithio arnynt wneud cais am gymorth ariannol. Mae'r Cynllun Cymorth Tarfu ar Fwyd Môr (SDSS) wedi'i gynllunio i gefnogi busnesau bach neu ganolig eu maint sydd wedi profi colled ariannol gwirioneddol wrth allforio pysgod ffres neu fyw a/neu bysgod cregyn i'r farchnad sengl rhwng 1 a 31 Ionawr 2021. Ewch i:

https://www.gov.uk/guidance/seafood-disruption-support-scheme

## Pecynnau cyfarpar diogelu personol am ddim i yrwyr tacsis

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi fod peth PPE ar gael am ddim i gwmniau tacsis. Mae un pecyn ar gael i bob gyrrwr tacsi trwyddedig drwy glicio ar y ddolen ganlynol:

http://bit.ly/FfurflenPPEForm

Am fwy o wybodaeth am y Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) a Chyfarpar Glanhau am ddim, ewch i:

https://llyw.cymru/canllawiau-ar-dacsis-cherbydau-hurio-preifat

# Digwyddiadau/ Gweminarau mis Chwefror

Mae nifer o ddigwyddiadau rhithwir ar gael yn gyson gan sawl sefydliad yng Nghymru er mwyn cefnogi busnesau yn y cyfnod yma:

- Gweminarau rhad ac am ddim Cyflymu Cymru i Fusnesau yn rhannu cyfrinachau gwerthu ar-lein
  Ydych chi'n un o'r 80% o fusnesau Cymru sy'n gwerthu ar-lein sy'n troi at ddigidol i addasu i'r cyfyngiadau a ffordd newydd o weithio yn ystod y pandemig? Peidiwch â cholli allan. Bwriad gweminarau rhad ac am ddim Cyflymu Cymru i Fusnesau yw eich helpu chi i greu gwerthiant nid yn unig i oroesi, ond i ailgychwyn, adfer a thyfu. P'un a oes angen help arnoch i greu gwefan e-fasnach, datblygu strategaeth cyfryngau cymdeithasol sy'n canolbwyntio ar werthiannau, neu wella'ch marchnata digidol, cofrestrwch ar gyfer gweminar am ddim gan Cyflymu Cymru i Fusnesau heddiw, ewch i: https://businesswales.gov.wales/superfastbusinesswales/cy/digwyddiadau

- Gweminar Trethi a Chadw Llyfrau Busnes Cymru
  Cynhelir y weminar hon mewn dwy ran dros ddau ddiwrnod. Mae pob sesiwn yn para 1 awr a 30 munud. Anfonir dolenni unigol ar gyfer y ddau sesiwn ar wahân. Nod y weminar hon yw darparu gwybodaeth i'ch cefnogi gyda lwfansau personol a chyfalaf, cyfrifiadau treth syml, Yswiriant Gwladol a hunanasesu. Mae'r weminar hon wedi'i hanelu at unig fasnachwyr a'r hunangyflogedig ac nid at Gyfarwyddwyr Cwmnïau Cyfyngedig. Mi fydd y weminar cyntaf yn digwydd am 1:00pm – 2:30pm ar 17 ac 18 Chwefror 2021. Am fwy o wybodaeth ac er mwyn archebu eich lle, ffoniwch 01745 585025, anfonwch e-bost at: northwales@businesswales.org.uk neu ewch i: https://bit.ly/30z25ZL

- Digwyddiad Gwersi C-19 ac Edrych i'r Dyfodol 18 Chwefror 2021
  Mae digwyddiad ar y cyd Gogledd Creadigol, Cymru Greadigol a Chelfyddydau Cymunedol Cyngor Gwynedd, "Gwersi C-19 ac Edrych i'r

Dyfodol", yn cael ei gynnal am 9:30am -11:00am ar 18 Chwefror 2021. Y siaradwyr fydd:
Geraint Evans, S4C
Siân Eirian, Eisteddfod yr Urdd
Siân Gale, CULT Cymru
Kev Tame, AM Cymru
Colin Heron, Prifysgol Wrecsam Glyndŵr
Archebwch eich tocyn yma:
http://bit.ly/37hCIzl

- Cychwyn Busnes – Gweminar Busnes Cymru
  Mae gweminar dwy ran Busnes Cymru, a redir gan ymgynghorwyr busnes profiadol, yn archwilio'r holl agweddau y mae angen i chi eu hystyried wrth ddechrau eich menter eich hun. Mi fydd Rhan 1 yn edrych ar ystyriaethau cychwyn busnes a Rhan 2 yn edrych ar Farchnata Busnes. Mi fydd y weminar nesaf yn digwydd am 10:00am – 1:00pm ar 22 a 24 Chwefror 2021. Am fwy o wybodaeth, ewch i:
  https://wales.business-events.org.uk/cy/digwyddiadau/cychwyn-gweminar-busnes/
  I archebu eich lle, ffoniwch 01745 585025 neu anfonwch e-bost at: northwales@businesswales.org.uk.

- Gwerthu Eich Busnes – A all perchnogaeth gweithwyr fod yn llwybr olyniaeth llwyddiannus i fusnesau bwyd?
  Mae'r gweminarau 'Gwerthu eich Busnes' gan Berchnogaeth Gweithwyr Cymru wedi eu targedu at berchnogion busnes a'u gweithwyr allweddol sy'n ystyried y ffordd orau o ymadael â'u busnesau. Mae perchnogaeth gweithwyr yn ennill poblogrwydd fel ateb sy'n effeithlon o ran treth a fydd yn sicrhau gwaddol eich cwmni gan hefyd gynnig buddion i chi, i'ch staff ac i'r ardal leol. Am fwy o wybodaeth, ac i gofrestru am y digwyddiad yma i'w gynnal am 10:00am – 11:30am ar 23 Chwefror 2021, ewch i:
  http://bit.ly/2MUVdCm

- Adferiad Rhanbarthol 2021 – Uwchgynhadledd Busnes 24 Chwefror 2021 (Ar-lein)
  Uwchgynhadledd Busnes a fydd yn rhoi sylw i'r buddsoddiadau, y cynlluniau a'r cymorth diweddaraf ar gyfer adferiad economaidd ardal

> Gogledd Cymru, Mersi a’r Ddyfrdwy. Cyflwyniadau gan Gynghrair Mersi a’r Ddyfrdwy, Llywodraeth Cymru, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, Partneriaeth Menter Leol Swydd Gaer a Warrington, a Growth Track 360. Bydd y digwyddiad ar-lein di-dâl hwn, rhwng 10:00am a 3:00pm ar 24 Chwefror 2021, yn cynnwys sesiwn holi ac ateb a chyfraniad dilynol gan fusnesau. I gofrestru, ewch i:
> http://bit.ly/3nZFAGn

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i’w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os oes gennych gwestiwn neu angen cyngor ebostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru